RHESTR WIRIO AR GYFER SEFYDLU 2011/12



YR NUT

www.teachers.org.uk

SEFYDLU 2011/12

RHESTR ER GWIRIO ARFERION DA AR GYFER ANG

Os atebwch NA i unrhyw un o'r cwestiynau isod, dylech felly , fel aelod NUT sydd newydd gymhwyso, drafod y mater gyda'ch cynrychiolydd NUT yn y lle cyntaf. Gofynnwch i gydweithiwr os ydych yn ansicr am bwy yw eich cynrychiolydd NUT.Yn hytrach, gallwch edrych ar y map rhyngweithiol trwy ymweld â www.teachers.org.uk/contactus am fanylion eich cyswllt rhanbarth lleol.

- Ydych chi wedi pasio'r holl Brofion Sgiliau Statws Athro neu Athrawes Cymwysedig (SAC)? (dim ond os hyfforddwyd chi yn Lloegr).
- A bennwyd tiwtor sefydlu ar eich cyfer?
- A gawsoch eich annog i gyfrannu at gynllunio'r rhaglen sefydlu?
- A gawsoch chi restr ar gyfer eich holl weithgareddau sefydlu, gan gynnwys arsylwadau, adolygiadau proffesiynol o'ch cynnydd, gweithgareddau datblygiad proffesiynol wedi'u targedu a chyfarfodydd asesu ffurfiol?
- Ydych chi'n derbyn copi o'r holl gofnodion ysgrifenedig sy'n berthynol i'ch asesiad?
- Os ydych yn gweithio mewn ysgol awdurdod lleol, a dderbynioch enw rhywun yn yr awdurdod lleol y gallwch godi unrhyw gonsyrn ynglŷn â'ch cyfnod sefydlu?
- Os ydych yn gweithio mewn academi, ysgol rydd neu ysgol annibynnol, a dderbynioch enw rhywun yn y Corff Priodol y gallwch godi unrhyw gonsyrn ynglŷn â'ch cyfnod sefydlu?

- Ydych chi'n fodlon gyda chynnwys a/neu gyflwyniad eich rhaglen sefydlu?
- Ydych chi'n derbyn eich hawl i amserlen addysgu o ddim mwy na "90 y cant o'r amser y byddai disgwyl i athro neu athrawes nad sy'n derbyn taliadau ar gyfer dyletswyddau neu gyfrifoldebau ychwanegol fod wrthi'n dysgu yn y dosbarth", yn unol â'r Ddogfen Cyflog ac Amodau Gwaith Athrawon Ysgol? A yw hyn ar ben eich amser o 10 y cant ar gyfer Cynllunio, Paratoi ac Asesu (CPA)?
- A ydych yn derbyn eich cyflog ar amser, yn unol â'ch cyfarwyddiadau?
- A welsoch chi eich disgrifiad swydd? Ydych chi'n teimlo ei fod yn rhesymol?
- A ydych yn dysgu'r ystod oedran neu'r pynciau y cawsoch eich hyfforddi i wneud (yng Nghymru) neu'r rhai y cawsoch eich cyflogi i wneud (yn Lloegr)?
- Os ydych yn addysgu unrhyw ddosbarthiadau sy'n neilltuol o anodd, a gawsoch chi gefnogaeth ychwanegol?
- Ydych chi ar gytundeb parhaol?
- Os ydych yn gweithio fel athro neu athrawes gyflenwi ar gontract o dymor neu fwy - a wnaeth eich pennaeth gytuno ymlaen llaw y byddai'ch cyfnod gwaith yn cyfrif tuag at sefydlu?
- A gawsoch chi gyngor llawn am eich ysgol, eich cytundeb cyflogaeth, amserlen, trefniadau cefnogi sefydlu a'r holl bolisïau ysgol perthnasol?
- Ydych chi'n teimlo'n hyderus eich bod yn gwybod beth a ddisgwylir gennych chi yn ystod eich cyfnod sefydlu, yn cynnwys sut i ddefnyddio eich Proffil Dechrau Gyrfa a Datblygiad neu Broffil Dechrau Gyrfa?
- A yw'n hawdd i chi gael gafael ar gopi o Gylchlythyr Llywodraeth Cymru neu ganllawiau statudol yr Adran Addysg (y DfE) ar y cyfnod sefydlu?

Cynlluniwyd a chyhoeddwyd gan Adran Strategaeth a Chyfathrebu yr NUT – www.teachers.org.uk
Dyluniwyd gan Paragraphics – www.paragraphics.co.uk Printiwyd gan Ruskin Press – www.ruskinpress.co.uk – 7399w/05/11

Wrthi'n cymhwyso ar gyfer addysgu?

UNDEB CENEDLAETHOL YR ATHRAWON
YR NUT

Cewch aelodaeth lawn am bedwar mis am £1 yn unig

Ffoniwch neu ewch i'n gwefan ac fe sicrhawn i'ch gyrfa ddechrau'n effeithiol gydag aelodaeth lawn yr undeb athrawon mwyaf.

Llinellau ymaelodi brys:
0845 300 1669/020 7380 6369

Dydd Llun i Ddydd Gwener (9 y bore tan 5 yr hwyr)

neu ymunwch ar-lein ar: www.teachers.org.uk